# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | **Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol** |
| **Aelod Cabinet:** | **Cynghorydd Llio Elenid Owen** |
| **Swyddog perthnasol:** | **Ian Jones, Pennaeth Adran Gwasanaethau Corfforaethol** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **11 Chwefror 2025** |

**1. Penderfyniad a Geisir**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

**3. Cyflwyniad a Rhesymeg**

**3.1** Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel Aelod Cabinet dros Adran Gwasanaethau Corfforaethol. Bydd yr adroddiad yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd hyd yma yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

**3.2** Hoffwn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfod o Dîm Rheoli'r Adran Gwasanaethau Corfforaethol ar yr 13eg o Ionawr, 2025, oedd hefyd yn cynnwys y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol.

**3.3** Rwyf yn fodlon bod y prosiectau sy'n cael eu harwain gan yr Adran, ynghyd a pherfformiad dydd i ddydd, yn cael eu cynnal o fewn y gyllideb. Dymunaf nodi fy ngwerthfawrogiad o waith holl swyddogion yr Adran a chydnabod y cyfraniad allweddol a wneir ganddynt i gefnogi gwaith y Cyngor.

**4. Prosiectau Cynllun y Cyngor Gwynedd 2023-2028 (Meysydd Blaenoriaeth)**

Mae'r Adran Gwasanaethau Corfforaethol yn arwain ar 6 prosiect o fewn gwahanol feysydd blaenoriaeth Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023-2028. Rwy'n crynhoi'r hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yma fel a ganlyn;

**4.1 Cadw'r Budd yn Lleol**

**4.1.1** Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gaffael, neu brynu, nifer o nwyddau a gwasanaethau ac yn awyddus i geisio sicrhau fod busnesau lleol yn gallu cystadlu ac ennill y cytundebau hyn er mwyn sicrhau fod cymaint o wariant y Cyngor ag sy'n bosib yn aros yn lleol.

**4.1.2** Yn dilyn penderfyniad ar y cyd gyda holl dimau rheolaeth categori a chaffael cytunwyd i gynnal cyfarfodydd herio perfformiad ychwanegol ar gyfer adrodd ar ganlyniadau adolygu cytundebau. Cytunwyd i gynnal dau gyfarfod y flwyddyn a cynhaliwyd y cyfarfodydd mis Mai a Rhagfyr 2024. Mae'r cyfarfodydd wedi bod yn gyfle i adolygu cynlluniau caffael y timau a deall sut maent yn ceisio ennill gwerth cymdeithasol, gwerth am arian, cefnogi'r farchnad a cheisio lleihau effaith llygru'r amgylchedd. Mae'r cyfarfodydd hefyd yn gyfle i nodi blaen raglenni gwaith ynghyd a unrhyw rwystrau mae'r timau'n eu profi.

**4.1.3** Daw rheoliadau caffael newydd i rym yn ystod mis Chwefror, 2025. Mae gwaith yn cael ei wneud i adnabod os oes cyfleoedd yn y rheoliadau newydd i brynu'n lleol neu i gefnogi'r farchnad leol mewn unrhyw ffordd.

**4.1.4** Mae gwaith yn parhau ar ddatblygu cynllun cyfathrebu o ran y nod o Gadw'r Budd yn Lleol gyda gwybodaeth yn cael ei ddiweddaru ar gyfer y safle we allanol a'r fewnrwyd. Yn ogystal, mae gwaith yn mynd rhagddo i greu deunyddiau dysgu newydd ar gyfer swyddogion y Cyngor.

**4.2 Merched Mewn Arweinyddiaeth**

**4.2.1** Amcan y prosiect hwn yw hybu'r nifer o ferched sy'n ymgeisio ac yn cyrraedd swyddi uwch o fewn y Cyngor trwy adolygu'r amodau a'r amgylchedd gwaith er mwyn denu mwy o ferched i ymgymryd â'r gwaith i'r dyfodol.

**4.2.2** Cynhaliwyd cyfres Gaeaf o'r cyfrwng poblogaidd "Sgyrsiau dros Baned" gyda Sioned Williams, Pennaeth Adran Economi a Chymuned wedi cynnal sgwrs mis Tachwedd a Ffion Edwards Ellis, Pennaeth Cynorthwyol Anghenion Addysg Arbennig wedi arwain sgwrs fis Ionawr. Cytunwyd yn y Bwrdd Prosiect diweddaraf i fod yn targedu mwy o amrediad mewn lefelau swyddi mewn siaradwyr i fod yn cynnwys Rheolwr ac Arweinyddion Tîm hefyd gyda'r bwriad o dargedu merched ifanc i gymryd y cam cyntaf. Mae gwaith yn mynd rhagddo i drefnu cyfres Gwanwyn / Haf o'r sgyrsiau.

**4.2.3** Mae pumed gyfres o'r Rhaglen Ddatblygol ar ei chanol gyda 12 merch deilwng o amrywiaeth o adrannau'r Cyngor wedi eu dewis i fod yn rhan o'r gyfres.

**4.2.4** Cynhelir sesiynau hyfforddiant 'Rhagfarn Heb Wybod' dros fisoedd y Gaeaf gan y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad.

**4.2.5** Mynychwyd cyfres yr Hydref o'r 'Rhwydwaith Rheolwyr' i godi ymwybyddiaeth o'r prosiect. Mae rhai dynion wedi cysylltu i holi am fwy o wybodaeth yn dilyn hynny. Mae gwaith hefyd ar y gweill i greu fideo ar gyfer 'Sesiwn Byw Gyda'r Prif Weithredwr' er mwyn codi ymwybyddiaeth pellach o waith y prosiect. Mae bwriad yn ogystal i gynnal 'Sgwrs Dros Baned' penodol ar gyfer dynion gyda siaradwyr o Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC yn egluro'r hyn maent wedi ei wneud i newid diwylliant o fewn yr Adran.

**4.2.6** Mae canllawiau'r Cyngor wedi eu diweddaru gan y Gwasanaeth Adnoddau Dynol i fod yn cyfarch yr angen i geisio sicrhau hafaliad rhwng dynion a merched ar baneli cyflogaeth boed hynny yn baneli penodi / apêl cyflogaeth / medrusrwydd ayb sy'n golygu fod y garreg filltir honno wedi ei chyfarch.

**4.2.7** Mae'r data ar gynnydd ac effaith y prosiect yn cael ei ddiweddaru yn gyson, ac ar hyn o bryd, mae'r ffigwr o ferched mewn swyddi rheolaethol yn 41% sydd yn gynnydd o 11% ers sefydlu'r prosiect. Mae yna wahaniaethau rhwng Adrannau, a gwahaniaethau hefyd rhwng haenau

swyddi. Cesglir a dadansoddir data hefyd ar effeithiolrwydd ymyraethau fel y rhaglen ddatblygol.

**4.3 Sicrhau Tegwch i Bawb**

**4.3.1** Er mwyn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud rhaid adnabod unrhyw rwystrau sy'n wynebu rhai pobl wrth chwilio am waith, neu dderbyn, gwasanaethau gan y Cyngor. Mae'n ofyn statudol i Gyngor Gwynedd, fel corff cyhoeddus, i greu cynllun o'r hyn rydym yn bwriadu ei wneud dros gyfnod o 4 blynedd i hybu cydraddoldeb. Yn sgil cyfnod o ryw 9 mis o gasglu barn mabwysiadwyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 gan y Cabinet ym mis Mawrth 2024. Mae'r Cynllun yn cynnwys 5 Amcan ac mae gwaith wedi ei glustnodi dan yr Amcanion yma dros gyfnod y bedair blynedd.

**4.3.2** Mae cyfuniad o wasanaethau o blith adrannau'r Cyngor yn gyfrifol am gyflawni gwahanol agweddau'r Cynllun. Mae gwaith wedi ei wneud i ddatblygu cerrig milltir manwl ar gyfer yr holl feysydd ar gyfer 2024/25. Ar hyn o bryd mae pob un o'r cerrig milltir ar drac i'w cwblhau o fewn y flwyddyn.

**4.3.3** Mae bwriad i sefydlu fforwm / fforymau staff ar faterion cydraddoldeb. Mae gwahoddiad wedi ei anfon allan i staff i ddangos diddordeb mewn ffurfio fforwm ar faterion cydraddoldeb mewn cyflogaeth.

**4.3.4** Mae cynnydd yn cael ei wneud ar baratoi cais ar gyfer cynllun achrediad 'Hyderus o Ran Anabledd' gyda cyngor yn cael ei dderbyn gan swyddog sydd yn cefnogi cynllun yng Nghymru.

**4.3.5** Bu oedi ar y gwaith o adnabod bylchau yn y wybodaeth am ddefnyddwyr gwasanaeth gofal, hynny yn sgil y ffaith fod system newydd i gofnodi manylion defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei datblygu, a'i bod yn synhwyrol i ddisgwyl dyfodiad y system newydd yn hytrach na addasu'r system bresennol. Yr amserlen ar gyfer cwblhau'r datblygiad ar hyn o bryd ydi Rhagfyr 2025.

**4.3.6** Mae gwaith yn parhau gyda datblygu a chyflwyno fframwaith hyfforddiant er mwyn rhoi'r adnoddau a'r hyder i staff. Mae cwrs LHDTC+ a hyfforddiant i reolwyr ar waith a trafodaethau yn mynd yn eu blaenau rhwng swyddogion cydraddoldeb a'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad ynghylch blaenoriaethau eraill.

**4.3.7** Mae cynnydd yn cael ei wneud o ran codi ymwybyddiaeth staff o'r drefn newydd ar gynnal asesiad effaith cydraddoldeb. Mae'r drefn newydd wedi ei selio ar waith swyddogion cydraddoldeb mudiadau cyhoeddus gogledd Cymru yn sgil mewnbwn gan swyddfeydd y Comisiynydd Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Chomisiynydd y Gymraeg. Mae'r teclyn sydd wedi ei addasu ar gyfer defnydd lleol, yn weithredol. Bydd fersiwn newydd o'r dudalen gwefan cydraddoldeb yn fyw erbyn 31.1.25 fydd yn cynnwys linc cliriach, yn ogystal a threfniadau yn eu lle i fynychu timau rheoli i godi ymwybyddiaeth.

**4.4 Cynllunio'r Gweithlu**

**4.4.1** Er mwyn sicrhau fod y Cyngor mewn sefyllfa i ddarparu a datblygu gwasanaethau i bobl Gwynedd, rhaid sicrhau fod gennym y staff cywir yn y lle iawn gyda'r sgiliau iawn.

**4.4.2** Mae gwaith yn parhau ar gynnal yr ymarferiad 'matrics' swyddi ag adrannau'r Cyngor. Y bwriad yw creu 'matrics' o swyddi allweddol, wedi eu hasesu ar sail risg i barhad gwasanaethau allweddol y Cyngor (i gynnwys swyddi yn y meysydd gofalu ac addysg), gyda

chynlluniau gweithredu wedi eu gosod ar gyfer ymateb i feysydd allweddol. Rhagwelir y bydd y gwaith hwn wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025.

**4.4.3** Bydd ymarferiad yn cael ei gynnal ar holl broses o ddenu staff i weithlu'r Cyngor, hynny er mwyn parhau i wella'r broses ar gyfer pawb sydd yn ymwneud a hi, ond yn arbennig felly ymgeiswyr am swyddi. Mae gwaith yn cael ei wneud i ddod ag union sgôp y gwaith at ei gilydd cyn cynnull grŵp o swyddogion o wahanol wasanaethau sydd a mewnbwn i'r rhan hwn o'r gwaith, gan gynnwys o safbwynt cydraddoldeb, adnoddau dynol, cyfathrebu a Ffordd Gwynedd er mwyn adolygu, datblygu a hwyluso sut mae ymgeiswyr am swyddi yn ein cyrraedd a'r profiad mae nhw yn ei gael o geisio am swyddi a'r Cyngor.

**4.4.4** Mae gwaith yn parhau ar geisio sefydlu cynllun profiad gwaith, fel ffrwd arall i geisio denu pobl i mewn i weithlu'r Cyngor. Mae trefniadau sylfaenol yn eu lle i gefnogi unigolion sydd yn dod at y Cyngor am brofiad gwaith.

**4.4.5** Mae'r dashfwrdd sy'n darparu gwybodaeth ar hyfforddiant mandadol wedi ei gwblhau. Mae'r gwaith o ddatblygu cynllun hyfforddi gweithlu penodol ar gyfer categori staff cyffredinol yn mynd rhagddo a fframwaith newydd wedi ei chreu a'i chyflwyno i'r Tim Rheoli Corfforaethol.

**4.4.6** Unwaith eto mae'r cyfnod o ddenu prentisiaid neu hyfforddeion proffesiynol i ddod i weithio i'r Cyngor wedi dechrau. Mae'r cyfnod i reolwyr ddatgan diddordeb a cyflwyno ceisiadau wedi agor ers 6.1.25. Yn ystod mis Mawrth 2025 rhoddir gwybod i reolwyr os yw eu cais ar gyfer 2025 wedi ei gymeradwyo. Yn dilyn hynny bydd y cyfnod recriwtio yn dechrau.

**4.5 Hybu Defnydd o'r Gymraeg gan Drigolion Gwynedd**

**4.5.1** Bydd prosiectau penodol yn cael eu cynnal a fydd yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg ac yn cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. Bydd hyn yn cynnwys cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg wrth ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus a chymunedol.

**4.5.2** Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda phob pennaeth neu gynrychiolydd er mwyn cael eu mewnbwn i Raglen Waith Strategaeth Iaith 2023-2033 a'r gwaith o ddatblygu'r rhaglen waith yn parhau yn dilyn eu mewnbwn. Yn sgil hynny, mae gwaith ar ambell brosiect wedi cychwyn megis diweddaru hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith newydd i gynghorwyr ac aelodau staff, a gwaith ar brosiectau eraill a oedd wedi eu sefydlu yn barod megis Prosiect Recriwtio Gweithlu Dwyieithog Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn wedi parhau.

**4.5.3** Mae cynnydd da wedi ei wneud gyda'r prosiect 'enwau llefydd'. Bu'r Swyddog Prosiect yn ymweld a dwy ysgol gynradd ac un ysgol uwchradd i gyflwyno Map Enwau Lleoedd y Cyngor a thrafod enwau lleoedd yn gyffredinol. Ar gais Cymdeithas Ddinesig Caernarfon bu'n cynghori ar arwyddion hen enwau'r dref gyda'r bwriad o osod placiau mewn gwahanol leoliadau. Ymatebwyd i gais Swyddog Bioamrywiaeth y Cyngor oedd eisiau gwybodaeth ar gyfer byrddau dehongli yn Eglwys Llanddeiniolen. Gwnaed ceisiadau ffurfiol i'r Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC i fabwysiadu rhai enwau lleol ar strydoedd fel enwau statudol. Fel rhan o'r gyfres Yr Enw a'r Hanes cyhoeddwyd dwy erthygl ar y Fewnrwyd.

**4.5.4** Penderfynwyd comisiynu cwmni allanol i ymgymryd â gwaith Prosiect 15. Crëwyd briff prosiect a bydd yn cael ei roi ar system caffael Gwerthu i Gymru. Bydd y cytundeb yn ariannu cynnal y gwaith creadigol am flwyddyn a chreu adroddiad am opsiynau dyfodol y prosiect er mwyn ei ddatblygu yn ôl anghenion y gynulleidfa.

**4.5.5** Yn dilyn sêl bendith gan y Cabinet i fwrw ymlaen gyda threfniadau allanoli Menter Iaith Gwynedd mae'r gwaith o gefnogi'r fenter yn parhau a threfniadau yn cael eu gwneud er mwyn trosglwyddo staff ar 1 Ebrill 2025.

**4.5.6** Penderfynodd aelodau Fforwm Iaith Gwynedd bod angen sefydlu is-grŵp i edrych ar agweddau pobl ifanc a'u rhieni tuag at y Gymraeg wrth ddilyn addysg bellach ac addysg uwch. Mae is-grŵp Pobl Ifanc Fforwm Iaith Gwynedd wedi ei sefydlu ac wedi cyfarfod. Mae'r Fforwm yn trefnu ymgynghoriad er mwyn casglu ymateb pobl ifanc ynglŷn a'u hagwedd a'u defnydd o'r Gymraeg. Bydd holiadur a grwpiau ffocws yn cael eu rhannu gyda'r canlyniadau'r cael eu rhannu gyda'r is-grŵp. Cynhelir cyfarfod nesaf y Fforwm llawn ganol Ionawr.

**4.5.7** Mae'r cydweithio gyda Phrifysgol Bangor ar ddau prosiect ymchwil yn parhau. Mae'r cyntaf yn edrych ar agwedd pobl at y Gymraeg a'r defnydd ohoni drwy holiaduron ar-lein a'r gwaith dadansoddi canlyniadau yn digwydd ar hyn o bryd. Mae'r ail brosiect yn canolbwyntio ar ddewis iaith y cyhoedd wrth ddefnyddio gwasanaethau rheng flaen a ddarperir gan Gyngor Gwynedd neu ar ran Cyngor Gwynedd. Arsylwyd defnydd iaith y cyhoedd mewn derbynfeydd 'Siop Gwynedd', llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden mewn tri lleoliad daearyddol gwahanol yng Ngwynedd sef Caernarfon, Pwllheli a Dolgellau. Casglwyd hefyd ddata am ddewis iaith pobl wrth gysylltu gyda chanolfan Galw Gwynedd, sy'n darparu gwasanaeth rheng flaen i ymdrin gyda galwadau ffôn gan drigolion ar draws y sir. Cafwyd sampl data o dros 3200. Mae'r gwaith o ddadansoddi'r canlyniadau yn digwydd ar hyn o bryd a'r gobaith yw llunio argymhellion i'w cynnwys yn rhaglen waith strategaeth iaith Gwynedd er mwyn hybu defnydd o'r Gymraeg.

**4.6 Adolygiad Strategol ar Reolaeth Iechyd a Diogelwch**

**4.6.1** Mae'r prosiect yn edrych ar reolaeth strategol iechyd a diogelwch o fewn y Cyngor a'r ffordd mae hynny yn clymu i systemau llywodraethu a pherfformiad cyffredinol. Mae'n golygu cynnal adolygiad llawn o'r system reoli yn ei chyfanrwydd.

**4.6.2** Cynhelir cyfarfodydd cynnydd rheolaidd gyda'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth er mwyn monitro'r gwaith datblygu ar gyflwyno system feddalwedd newydd iechyd a diogelwch ar draws y Cyngor. Mae gwaith sylweddol yn cael ei wneud yn y cefndir er mwyn galluogi trosglwyddo'r wybodaeth hanesyddol i fformat y system newydd. Mae dashfwrdd y system wedi ei greu, ac mae'r wybodaeth o'r hen system wedi'i drosglwyddo'n llwyddiannus.

**4.6.3** Mae gwaith mapio sylweddol wedi digwydd ar ail wedd y system fydd yn gweld datblygiadau yng nghyswllt cofrestr risg, asesiadau risg, archwiliadau a swyddogaethau eraill. Mae'r gwaith yma wedi ei gyflwyno i'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth.

**4.6.4** Mae gwaith yn parhau ar y model integredig o reoli iechyd a diogelwch. Mewn cyfarfod blynyddol gyda'r Tim Rheoli Corfforaethol y llynedd penderfynwyd bod angen dadansoddiad bwlch (*gap analysis*) ar y ddau fodel cyntaf. Lluniwyd holiadur yn amlinellu camau allweddol y ddau fodel fel bod rheolwyr a fformat clir a chynhwysfawr i'w ddilyn. Mae'r holiadur wedi ei anfon at bob rheolwr drwy'r Fforwm Iechyd, Diogelwch a Llesiant Corfforaethol.

**4.6.5** Fel rhan o waith adolygu trefn cyfathrebu ac adnoddau i gynorthwyo Rheolwyr a Phenaethiaid Cynorthwyol ar draws y Cyngor, mae adolygiad o'r wybodaeth sydd ar gael ar y fewnrwyd i sicrhau bod cyfathrebu iechyd, diogelwch a lles yn glir, yn gryno, ac yn hawdd i staff ddod o hyd i wybodaeth berthnasol. Ynghyd a hynny, mae gwaith yn cael ei wneud i datblygu dashfwrdd ar gyfer Penaethiaid

Adran, mae gwybodaeth wedi dechrau cael ei gasglu a mae trafodaethau yn digwydd gyda'r Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth ynglŷn a chreu'r dashfwrdd.


**5. Perfformiad**

**5.1.** Mae gwasanaethau'r Adran yn perfformio'n dda a chadarnhaf fy mod yn fodlon gyda'u perfformiad presennol. Gweler isod rhai o'r uchafbwyntiau.

**5.2** Mae'r **Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu** yn galluogi'r Cyngor i rannu gwybodaeth a chynnal sgwrs ddwyffordd gyda phobl Gwynedd, staff ac Aelodau Etholedig y Cyngor. Mae'r gwasanaeth hefyd yn galluogi'r cyhoedd i hunan-wasanaethu ar wefan Cyngor Gwynedd 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos a chynnig ffordd fwy cost effeithiol o gysylltu â'r Cyngor am wasanaeth


**5.3** O ran y nifer o geisiadau gwasanaeth sy'n cael ei cyflwyno ar-lein roedd nifer ceisiadau Tachwedd eleni 1,883 yn fwy na Tachwedd 2023. Mae sawl gwasanaeth wedi gweld cynnydd bychan yn niferoedd y ceisiadau a gyflwynwyd ond gwelwyd cynnydd mwy yn y ceisiadau canlynol o'i gymharu â Tachwedd 2023: Archebu slot canolfan ailgylchu – 1,007 yn fwy, Cais am fynediad ysgol – 158 yn fwy, Newid cyfeiriad Treth Cyngor – 107 yn fwy. Roedd nifer ceisiadau Rhagfyr eleni 706 yn is na Rhagfyr 2023.

**5.4** Y prif reswm am hyn yw nad oedd y Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu'n derbyn ceisiadau Gwastraff Gardd ym mis Rhagfyr eleni. Derbyniwyd 880 cais yn Rhagfyr 2023. Hefyd, nid oedd hunanwasanaeth ar gael am bron i ddiwrnod adeg Storm Darragh oherwydd bod y gweinyddwyr i lawr. Dros y misoedd nesaf tra bydd y pwyslais ar integreiddio Fy Nghyfrif gyda system mynediad ysgol newydd yr Adran Addysg a chyda system newydd y Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu er mwyn eu galluogi i weithio'n fwy effeithlon, byddwn hefyd yn gweithio ar gyflwyno gwasanaethau newydd, e.e. Cais i newid cwrs dŵr cyffredin.




**5.5** Yn ystod Tachwedd a Rhagfyr cyhoeddwyd 13 o ddatganiadau rhagweithiol i'r wasg a wnaeth arwain at 66 o eitemau newyddion. Y datganiad a berfformiodd orau o bell ffordd oedd ethol Arweinydd newydd y Cyngor, a dderbyniodd sylw yn lleol ac yn genedlaethol. Cafwyd sylw

teilwng hefyd i ddatganiadau am y Cyngor yn erlyn cwmni am droseddau iechyd a diogelwch yn dilyn damwain angheuol a gorffen gwaith ar furlun Llewyrch o'r Llechi ym Mlaenau Ffestiniog. Yn ychwanegol, dros y ddau fis, derbyniwyd 75 o ymholiadau gan y wasg. Mae materion yn ymwneud ag Ysgol Friars yn parhau i ddwyn sylw'r cyfryngau gyda nifer o ymholiadau yn rhai cymhleth. Derbyniwyd ymholiadau niferus hefyd am effeithiau stormydd Bert a Darragh, ethol Arweinydd newydd a mater Cynllunio yn ardal Penisarwaun.




**5.6** Mae'r **Gwasanaeth Democratiaeth a Iaith** yn cefnogi trefniadau democratiaeth y Cyngor a hyrwyddo'r Gymraeg yn barhaus.


**5.7** Daeth swyddogion Menter Iaith Gwynedd i'r brig yng ngwobrau Mentrau Iaith Cymru. Cafwyd gwobr rhagoriaeth am y gwaith a wnaed gyda phrosiect Croeso Cymraeg - Cymdeithas Affrica Gogledd Cymru. Braf hefyd oedd clywed canmoliaeth mewn seminar gan Gomisiynydd y Gymraeg ynghylch arfer da strategaethau iaith am benderfyniad Cyngor Gwynedd i lunio strategaeth iaith Gymraeg 10 mlynedd yn hytrach na 5 mlynedd.

**5.8** Mae gwaith yn parhau i wella'r ddarpariaeth ar gyfer gwe-ddarlledu a hefyd cynnal cyfarfodydd hybrid o fewn y Cyngor gyda nifer o welliannau ar y gweill.

**5.9** Mae'r **Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant** yn galluogi arweinyddion i fod yn fedrus yn y maes trwy roi arweiniad cymwys, hwyluso a gwerthuso system reoli iechyd, diogelwch a llesiant effeithiol.

**5.10** Mae'r Rheoliadau Adrodd Anafiadau, Heintiau, a Digwyddiadau Peryglus 2013 (RIDDOR) yn rhoi gofyn ar gyflogwyr i adrodd digwyddiadau penodol i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (AGID). Yn ystod chwarter 3, cafodd 14 digwyddiad RIDDOR eu hadrodd i'r Uned Iechyd a Diogelwch. O'r rhai sydd wedi eu hadrodd yn chwarter 3, roedd 6 wedi eu hadrodd o fewn 10 diwrnod. Mae amryw o resymau pam cafodd y 8 arall eu hadrodd yn hwyr e.e. ffurflen HS11 yn hwyr, gwybodaeth anghywir gan ysbyty, amser yn holi rheolwyr i fedru penderfynu os oedd digwyddiad yn cyrraedd criteria RIDDOR, oediad mewn ymateb gan reolwr ac argaeledd ymgynghorydd oherwydd ymweliadau safle i ddilyn fyny ayb.

**5.11** Mae'r Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant yn darparu hyfforddiant IOSH i reolwyr ac arweinyddion tîm ar draws y Cyngor. Nod yr hyfforddiant yw datblygu dealltwriaeth staff am eu cyfrifoldebau o ran iechyd a diogelwch a'r hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt. O ran y nifer sydd wedi mynychu'r hyfforddiant mae cynnydd o 54% wedi bod yn ystod chwarter 2. Yn galonogol mae 11% (71 rheolwr/arweinydd tîm/pennaeth ysgol) yn ychwanegol wedi cofrestru ar gyfer cwrs yn 2025. Bydd gwaith yn parhau dros y misoedd nesaf i lenwi'r cyrsiau a chynyddu'r canran yma ychydig eto.




**6. Sefyllfa Ariannol / Arbedion a Thoriadau**

**6.1** Cyflwynwyd rhagolygon ariannol 2024/25 i gyfarfod y Cabinet ar 21ain o Ionawr 2025, ble rhagwelir sefyllfa tanwariant o (£33k) ar gyfer yr Adran. Hyn yn gynnydd o (£10k) yn y tanwariant ers yr adolygiad ddiwethaf ar ddiwedd Awst 2024 ac yn adlewyrchu ymdrech yr Adran i rewi gwariant er mwyn cynorthwyo sefyllfa ariannol y Cyngor.

**6.2** Wrth baratoi Cyllideb 2024/25, adnabuwyd cynlluniau arbedion / toriadau gwerth £242,540 i'w dynnu o'r gyllideb. O rhain, mae £174,010 eisoes wedi eu gwireddu a £26,920 (2 cynllun) ar drac i gyflawni'n amserol. Gydag un cynllun cyfwerth a £41,610, ble mae risg i wireddu'r toriad yn llawn. Mae'r Adran wedi adnabod gellir cyflawni gwerth £14,000 o'r toriad, ac felly risg i gyflawni gwerth £27,610 gyda'r Adran yn edrych sut gellir gwireddu'r gweddill.

**7. Sylwadau Swyddogion Statudol**

**7.1 Prif Swyddog Cyllid**

Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol.

**7.2 Swyddog Monitro**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.